YSGOL PENRHYN-COCH

Dyma ein cyfle cyntaf i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr ***Y Tincer*** gan bod rhifyn Ionawr yn ei wely cyn i'r ysgol ail agor ar ôl y Nadolig.

Ar ôl holl weithgareddau'r Ŵyl, y gyngherddau, canu carolau, partïon ac yn y blaen. Da yw dweud bod plantos Penrhyn-coch yn ôl yn yr ysgol yn barod am dymor o waith caled unwaith eto.

Croeso

Croeso cynnes i bedwar plentyn newydd yn y dosbarth Derbyn sef – Lowri Donally; Emily Lewis; Gwenno Morris a Samantha Merry.

Yr Urdd

Yn ein sesiwn gyntaf ym 2001 daeth Mrs Joyce Bowen i gadw orig gyda dawnsio llinell. Cafwyd hwyl a sbri yn ei chwmni.

Buom yn dathlu ac yn paratoi cardiau Santes Dwynwen yn y cyfarfod dilynol gyda'r athrawon yn cyd-weithio â'r plant.

Croeso yn ôl oedd hi y drydedd wythnos i Mrs Elizabeth Evans a fu unwaith yn athrawes yn yr ysgol. Cafwyd sesiwn diddorol yn ei chwmni yn edrych a trafod arian hen a newydd.

Edrychwn ymlaen at gwmni Mrs Vera Lloyd y tro nesaf gyda cwis a dipyn o ganu yn ogystal.

Gweithgareddau amrywiol

Cawsom ymweliad gan Theatr Ieuenctid a gyflwynodd "Children of Dickens" i'r holl ysgol.

- Ymweliad hefyd gan gwmni dawns "Diversions". Bu blwyddyn 5 a 6 yn